# Deddf Tai (Cymru) 2014

**2014 dccc 7**

**RHAN 2**

DIGARTREFEDD

**PENNOD 2**

CYMORTH I BOBL SY'N DDIGARTREF NEU
O DAN FYGYTHIAD O DDIGARTREFEDD

*Darpariaethau atodol*

**95 Cydweithredu**

(1) Rhaid i gyngor sir neu fwrdeistref sirol yng Nghymru wneud trefniadau i hybu cydweithredu rhwng swyddogion yr awdurdod sy'n arfer ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol a'r rhai hynny sy'n arfer ei swyddogaethau fel yr awdurdod tai lleol gyda'r nod o gyflawni'r amcanion canlynol yn ei ardal—

(a) atal digartrefedd,

(b) bod llety addas ar gael neu y bydd ar gael ar gyfer pobl sy'n ddigartref neu y gallent ddod yn ddigartref,

(c) bod cefnogaeth foddhaol ar gael i bobl sy'n ddigartref neu y gallent ddod yn ddigartref, a

(d) arfer ei swyddogaethau yn effeithiol o dan y Rhan hon.

(2) Os yw awdurdod tai lleol yn gofyn am gydweithrediad person a grybwyllir yn is-adran (5) wrth arfer ei swyddogaethau o dan y Rhan hon, rhaid i'r person gydymffurfio â'r cais oni bai bod y person yn ystyried y byddai gwneud hynny—

(a) yn anghydnaws â dyletswyddau'r person ei hun, neu

(b) yn cael effaith andwyol fel arall ar arfer swyddogaethau'r person.

***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

(3) Os yw awdurdod tai lleol yn gofyn i berson a grybwyllir yn is-adran (5) ddarparu gwybodaeth iddo sy'n ofynnol ganddo er mwyn arfer unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau o dan y Rhan hon, rhaid i'r person gydymffurfio â'r cais oni bai bod y person yn ystyried y byddai gwneud hynny—

(a) yn anghydnaws â dyletswyddau'r person ei hun, neu

(b) yn cael effaith andwyol fel arall ar arfer swyddogaethau'r person.

(4) Rhaid i berson sy'n penderfynu peidio â chydymffurfio â chais o dan is-adran (2) neu (3) roi rhesymau ysgrifenedig dros y penderfyniad i'r awdurdod tai lleol a wnaeth y cais.

(5) Y personau (pa un a ydynt yng Nghymru neu yn Lloegr) yw—

(a) awdurdod tai lleol;

(b) awdurdod gwasanaethau cymdeithasol;

(c) landlord cymdeithasol cofrestredig;

(d) corfforaeth tref newydd;

(e) darparwr tai cymdeithasol preifat cofrestredig;

(f) ymddiriedolaeth gweithredu tai.

(6) Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio is-adran (5) drwy orchymyn er mwyn hepgor neu ychwanegu person, neu ddisgrifiad o berson.

(7) Ni chaiff gorchymyn o dan is-adran (6) ychwanegu un neu ragor o Weinidogion y Goron.

(8) Yn yr adran hon—

mae i "corfforaeth tref newydd" yr un ystyr a roddir i "new town corporation" gan Rhan 1 o Ddeddf Tai 1985;

mae i "darparwr tai cymdeithasol preifat cofrestredig" yr un ystyr a roddir i "private registered provider of social housing" gan Rhan 2 o Ddeddf Tai ac Adfywio 2008;

mae i "landlord cymdeithasol cofrestredig" yr un ystyr a roddir i "registered social landlord" gan Rhan 1 o Ddeddf Tai 1996;

ystyr "ymddiriedolaeth gweithredu tai" ("*housing action trust*") yw ymddiriedolaeth gweithredu tai a sefydlwyd dan Rhan 3 o Ddeddf Tai 1988.